**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Cronfa Effaith Balchder Bro** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd R. Medwyn Hughes, Aelod Cabinet Economi** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Llŷr B. Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10fed Chwefror 2026** |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1. Fod y Cabinet yn cytuno i gyfeirio'r £1.5 miliwn sydd yn dod i Wynedd o Gronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DG i'r Cynlluniau a restrir yn Atodiad 2 yr adroddiad

1.2. Fod y Cabinet yn awdurdodi'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Economi a'r Pennaeth Cyllid, i gadarnhau manylion y pecyn arfaethedig o gynlluniau i'w cefnogi, gan sicrhau trefniadau gweithredol yn unol â thelerau ac amodau'r Gronfa.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1. Ar 25ain o Fedi 2025 bu i'r Cyngor dderbyn llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Ysgrifenydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DG yn cadarnhau fod £1.5 miliwn wedi ei glustnodi i Gwynedd o'u Cronfa Effaith Balchder Bro. Roedd yr arian wedi ei ddyrannu ar sail £750,000 yn 2025/6 a £750,000 yn 2026/7.

2.2. Mae gofyn i'r Cabinet gytuno ar defnydd yr arian sydd yn dod i Wynedd o'r Gronfa.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1. <u>Cefndir/ Cyflwyniad</u>

3.1.1. Yn Medi 2025 dyma Llywodraeth DG yn cyhoeddi'r Cronfa Effaith Balchder Bro fydd yn buddsoddi £150 miliwn ar draws y DG erbyn Mawrth 2027 i geisio adfer balchder mewn cymunedau lleol.

3.1.2. Mae'r Gronfa yn cynnig £1.5 miliwn ar gyfer 95 ardal yn y DG. Yng Nghymru, mae pob awdurdod lleol am dderbyn £1.5 miliwn (ag eithrio Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sydd am dderbyn £3 miliwn).

3.1.3. Mae 3 prif amcan ar gyfer y Gronfa Effaith Balchder Bro, sef :

i. **Mannau cymunedol**: creu, ymestyn, gwella neu adnewyddu cyfleusterau cymunedol a galluogi sefydliadau cymunedol i gymryd rheolaeth neu berchnogaeth o asedau lleol sydd o bwys ond yn cael eu tanddefnyddio.

ii. **Mannau cyhoeddus**: gwella'r amgylchedd ffisegol mewn mannau cyhoeddus – er enghraifft mannau gwyrdd, sgwariau cyhoeddus newydd neu well, chwarae awyr agored, mannau chwaraeon a hamdden, dodrefn stryd, celf gyhoeddus neu ffyrdd ddarganfod.

iii. **Adfywio'r stryd fawr a chanol y dref**: gwneud gofodau fwy deniadol a chroesawgar lle mae pobl yn ymgynnull ac sy'n annog gweithgarwch economaidd – er enghraifft gwelliannau blaenau siopau, addasiadau sy'n dod â safleoedd yn ôl i ddefnydd, gwelliannau gwedd a golwg, celf gyhoeddus, llwybrau a chreu neu wella'r seilwaith ar gyfer marchnadoedd rheolaidd.

3.1.4. Mae’r arian y Gronfa Balchder Bro yn 100% arian cyfalaf. O’r £1.5 miliwn, mae £750,000 ar gyfer 2025/6 a £750,000 ar gyfer 2026/7 , felly mae’r cyfnod ar gyfer cyflawni yn fyr.

3.1.5. Awdurdodau lleol fydd yn derbyn yr arian ac yn atebol ar gyfer ei ddefnydd, gan weithio hefo rhanddeiliaid lleol er mwyn sicrhau ymyriadau sy'n diwallu anghenion lleol. Mae telerau’r arian hefyd yn caniatáu darparu grantiau i sefydliadau sydd â statws cyfreithiol i gyflawni prosiectau.

3.2. <u>Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad</u>

3.2.1. Yn mis Tachwedd 2025, derbyniwyd gwybodaeth a chanllawiau pellach gan Llywodraeth y DG, yn cynnwys trefniadau adrodd a monitro y Gronfa.

3.2.2. Yn gyfochrog dyma’r Adran Economi a Chymuned yn cynnal ymarferiad i adnabod cynlluniau posib ar gyfer y Gronfa.

3.2.3. Dyma’r ymarferiad yn cynnwys nifer o ystyriaethau, yn cynnwys:

- Amcanion, canllawiau a maint y Gronfa Effaith Balchder Bro
- Cyfnod gweithredu (sydd yn ffafrio cynlluniau mwy aeddfed)
- Dosbarthiad daearyddol ar draws y Sir
- Cyfleoedd posib ar gyfer defnyddio’r arian i ddenu adnodau ychwanegol gan uchafu’r buddsoddiad posib

3.2.4. Fel rhan o’r gwaith, trefnwyd ymgynghoriad traws-adrannol er mwyn ystyried cynlluniau posib o ar draws y Cyngor.

3.2.5. Roedd hefyd ystyriaeth i'r ystod o brosiectau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd drwy raglenni ariannol eraill megis yn cynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), Cronfa Ffyniant Bro a Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

3.2.6. Mae Atodiad 1 yn cynnwys crynodeb o brosiectau adfywio sydd wedi sicrhau grantiau drwy'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio neu Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn ystod y cyfnod 2022/3 – 2025/6. Mae cyfanswm y grantiau sydd wedi eu gweinyddu yn £32m, gan gefnogi prosiectau gwerth £53m ar draws y Sir.

3.2.7. Dylid nodi fod rhestr cynlluniau yn Atodiad 1 wedi eu cyfyngu i gynllun grant sydd wedi eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio a'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn unig. Nid yw'r rhestr felly yn cynnwys cynlluniau sy'n cael eu gweinyddu neu eu gweithredu yn uniongyrchol gan Wasanaethau / Adrannau eraill o'r Cyngor; neu gan bartneriaid strategol. Nid yw'r wybodaeth gymharol gyfyng yma felly yn cynnig sail ddigonol ar gyfer cymharu ardaloedd lleol.

3.2.8. Un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28 yw Cynllun Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi sydd yn cynnwys sefydlu fframwaith adfywio ar gyfer y Sir, gan hefyd ddatblygu cynlluniau gweithredu canol trefi. Fel rhan o'r fframwaith adfywio, mae cynlluniau adfywio lleol wedi eu datblygu ar gyfer 13 dalgylch ar draws y Sir, a'r gwaith wedi amlygu egwyddorion craidd yn cynnwys

- Cyfraniad sefydliadau a grwpiau lleol i gynlluniau adfywio lleol
- Lledaenu buddsoddiad a chyfleoedd i phob rhan o Wynedd

3.3. <u>Ystyried cynigion ar gyfer Cronfa Effaith Balchder Bro</u>

3.3.1. Mae'r Cronfa Effaith Balchder Bro yn cynnig dyraniad o £1.5 miliwn o arian cyfalaf sydd i'w wario erbyn diwedd Mawrth 2027. Mae'r amserlen gweithredu felly yn gymharol dynn, ac nid yw'r gyllideb sydd ar gael yn sylweddol iawn.

3.3.2. Mae'r ymgynghoriad traws-adrannol wedi amlygu sawl prosiect sy'n cael ei ddatblygu gan y Cyngor ar hyn o bryd, ond heb adnoddau i'w cyflawni. Mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch rhaglenni ariannol ar gyfer 2026/7 a thu hwnt, ac felly mae'r Gronfa yn cynnig adnodd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

3.3.3. Er hynny, mae pecyn cynigion ar gyfer y Gronfa wedi ei gynnwys fel Atodiad 2. Mae'r pecyn arfaethedig yn cynnwys dyraniad o'r Gronfa ar gyfer y gweithgareddau / prosiectau canlynol :

- **Cronfa Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned** – sydd yn adeiladu ar gynllun arbrofol eleni gan sefydlu cronfa ar cynghorau lleol gan ledaenu'r budd i bob ardal o Wynedd, gan gefnogi gwelliannau ar lefel lleol iawn sy'n ymateb i anghenion lleol
- **Cynllun Is-adeiledd a llwybrau trefol** – ar gyfer gwella cyflwr llwybrau a chysylltiadau trefol r draws y Sir (mae cynigion manwl yn cael eu baratoi ar hyn o bryd)
- **Rhaglen Adfywio Canol Dinas Bangor** – sydd wedi ei adnabod fel blaenoriaeth strategol yn sgil newidiadau a heriau yn wynebu ardal y Stryd Fawr. Mae'r cynigion yn cynnwys pecyn gwella eiddo Stryd Fawr, gwelliannau stryd Ffordd y Coleg a gweithredu gwelliannau ger Ffordd Deiniol er mwyn gwella edrychiad yr ardal a chryfhau cysylltiadau trefol
- **Cynlluniau Gwella Canol Trefi** – yn cynnwys pecyn gwella eiddo a chynllun arwyddo a dehongli fel rhan o Gynllun Gwella Canol Tref Pwllheli; ail-wynebu Sgwâr Eldon yn Nolgellau; a gwelliannau toiledau cyhoeddus yn Abermaw.
- **Gwelliannau Llyfrgelloedd** – yn cynnwys cynlluniau i drawsnewid llyfrgell Caernarfon ac uwchraddio llyfrgell ym Mlaenau Ffestiniog gan wella cyfleusterau sydd ar gynnig yn yr adnoddau cymunedol pwysig yma
- **Cynlluniau wrth gefn** – mae'r cynigion hefyd yn cynnwys cynlluniau wrth gefn, pe byddai tanwariant neu cyfle arall yn codi.

3.3.4. Ystyrir fod y pecyn arfaethedig yn ymateb i faterion ac anghenion lleol sydd wedi eu hadnabod drwy'r Cynllun Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi a cheisio gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Rhagwelir cyfle hefyd i ddefnyddio'r Gronfa i ategu ffynonellau ariannol eraill megis Trawsnewid Trefi, rhaglenni Loteri ac adnoddau cyfalaf y Cyngor gan olygu fod gwerth y pecyn arfaethedig yn uwch na chyllidebau'r Gronfa. Mae ymdrech bwrpasol hefyd i ledaenu buddsoddiad ar draws y Sir – drwy gyfrwng Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned, ynghyd â prosiectau pwysig mewn trefi ar draws Gwynedd.

3.3.5. Drwy ymateb i anghenion lleol, mae'r cynigion yn cyfrannu ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfrannu at y dyletswydd datblygiad cynaliadwy drwy hybu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bwriedir gweithredu'r pecyn Cronfa Effaith Balchder Bro fel rhan o'r fframwaith adfywio, gan sicrhau trefniadau ar gyfer cyd-weithio gyda sefydliadau lleol; integreiddio gyda chynlluniau adfywio lleol, bod yn gynhwysol, gyfrannu at waith ataliol cyrff cyhoeddus, ac ymateb i anghenion tymor byr a'r hirdymor.

3.3.6. Mae Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd Cymdeithasol wedi ei gyflwyno hefo Atodiad 3. Nid oes effaith negyddol wedi eu adnabod ar gyfer y cynigion arfaethedig, a rhagwelir y byddai'r cynlluniau yn arwain at effeithiau cadarnhaol.

3.4. Camau nesaf

3.4.1. Yn amodol ar dderbyn cefnogaeth y Cabinet, bydd angen gosod trefniadau priodol ar gyfer y pecyn arfaethedig. Bydd angen paratoi manylion llawn a'r gyfer pob cynllun unigol, a'u cyflwyno i Lywodraeth y DG yn unol â thelerau ac amodau'r Gronfa.

3.4.2. Mae Llywodraeth DG eisoes wedi sefydlu portal penodol ar gyfer adrodd ar a gweinyddu'r Gronfa Effaith Balchder Bro. Hefyd, bydd yr Adran yn sefydlu trefniadau traws-adrannol ar gyfer cyd-lynu'r Gronfa, ac yn baratoi dogfennau safonol megis cofrestr risg a chynllun cyfathrebu.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1. Prif Swyddog Cyllid**

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gyda'r Adran Economi a Chymuned ar faterion ariannol y cynlluniau adfywio a amlinellir yn yr adroddiad. Rwyf yn fodlon fod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau hyn, a rwyf yn hyderus bydd hynny'n parhau petai'r Cabinet yn mabwysiadu'r penderfyniad a geisir.

**4.2. Swyddog Monitro**

Mae'n briodol fod y Cabinet yn ystyried dyraniad y grant yma. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir a fod y dirprwyo yn gymesurol.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 : Crynodeb prosiectau wedi eu cefnogi drwy Cynllun Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi 2023-26

Atodiad 2 : Cynigion arfaethedig Cronfa Effaith Balchder Bro

Atodiad 3 : Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd Cymdeithasol